**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
**–**
**Economy, Trade, and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

16 Mai 2025

Annwyl Carolyn,

**Ymateb y Pwyllgor i ohebiaeth ynghylch deisebau**

Diolch am eich llythyrau ynglŷn â'r ddeiseb sy'n galw am ddyfodol hirdymor Campws Llambed (P-06-1507), y ddeiseb ynglŷn â steilio cŵn (P-06-1391) a'r ddwy ddeiseb ynglŷn â rasio milgwn (P-06-1253 a P-06-1354). Bu'r Pwyllgor yn trafod y llythyrau hyn a'r deisebau yn ein cyfarfod ar 30 Ebrill.

Mae gan y Pwyllgor flaenraglen waith brysur, felly nid oes gennym unrhyw gynlluniau i gynnal ymchwiliadau penodol i'r materion hyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cadw golwg ar y sefyllfa yn Sector Addysg Uwch Cymru sy'n ymwneud â'n cylch gwaith o ran yr economi ac ymchwil a datblygu. Rydym hefyd yn cadw golwg ar waith Llywodraeth Cymru ar les anifeiliaid, a byddwn yn cynnwys steilio cŵn yn hyn o beth.

O ran rasio milgwn, nodaf fod Llywodraeth Cymru wedi datgan bwriad i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Y Pwyllgor Busnes sydd i benderfynu pa filiau y mae pa Bwyllgor yn craffu arnynt. Fodd bynnag, os cyfeirir bil i ddeddfu ar yr ymrwymiad hwnnw at y Pwyllgor hwn, byddaf yn sicrhau ein bod yn myfyrio ar y safbwyntiau a fynegwyd a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ddwy ddeiseb fel rhan o'n gwaith craffu.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg